# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 16 Mehefin 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa bryd y cwblhaodd McKinsey y gwaith ar yr adroddiad ar y GIG yng Nghymru. (WAQ56078)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Ar ba ddyddiad y daeth Adroddiad McKinsey ar y GIG yng Nghymru yn ddogfen weithio yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. (WAQ56079)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Mehefin 2010***

Fel yr esboniais yn flaenorol, nid yw adroddiad McKinsey ar gael. Mae'r gwaith a wneir gan McKinsey yn helpu i lywio datblygiad y Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu ac Ariannol Strategol Pum Mlynedd gan y GIG yng Nghymru. Cyfres o ddogfennau, prosesau ac ymddygiad yw'r fframwaith cyffredinol a fydd yn arwain y broses o drawsnewid ac integreiddio. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau cyflenwi'r saith Bwrdd Iechyd a fydd yn parhau i gael eu datblygu a'u mireinio o flwyddyn i flwyddyn â phartneriaid.
Mae crynodeb o'r sail dystiolaeth sy'n ategu'r cyfeiriad strategol bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan HOWIS ac mae ar gael yn http://www.wales.nhs.uk/page.cfm?orgid=1&pid=7452.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y protocolau’n ymwneud â chofnodion meddygol cyfrinachol cleifion. (WAQ56080)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pwy sydd â hawl i weld cofnodion meddygol cyfrinachol cleifion heb gael caniatâd y claf o flaen llaw. (WAQ56081)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn cwmpasu'r hawl i weld cofnodion meddygol cyfrinachol cleifion. Nodir canllawiau hefyd yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyfrinachedd: Cod Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038212/403821/4038211/4038211/CodeofPractice?lang=en

Mae canllawiau ar rannu neu ddatgelu data ar gael drwy'r canlynol: Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/702/WASPI%20Accord%20v2-00%20final.doc) a chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 'Use and Disclosure of Health Data' http://www.ico.gov.uk/upload/documents/library/data_protection/practical_application/health_data_-_use_and_disclosure001.pdf

Mae'r cod ymarfer a chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cwmpasu'r hawl i weld cofnodion. Gellir caniatáu i rywun eu gweld heb ganiatâd pan roddir gofal brys lle nad yw'r claf yn gymwys i roi ei ganiatâd.

Fel arall, dylid bob amser gael caniatâd cyn eu gweld.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau’r buddsoddiad mewn ffisiotherapi yng Nghymru. (WAQ56083)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Mae buddsoddi mewn ffisiotherapi yn fater i fyrddau iechyd lleol. Mae eu buddsoddiad yn seiliedig ar anghenion lleol a chaiff ei nodi drwy eu cynlluniau gweithlu. Ni chesglir nifer y swyddi ffisiotherapi yng Nghymru yn y ffordd hon fel mater o drefn.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau ar gyfer nifer y digwyddiadau treisgar a gofnodwyd yn erbyn aelodau staff y GIG ym mhob blwyddyn er 2005. (WAQ56084)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Mae digwyddiadau treisgar yn golygu mwy na'r adegau hynny pan gaiff niwed corfforol ei wneud; mae GIG Cymru yn defnyddio'r diffiniad canlynol: 'Unrhyw ddigwyddiad lle y caiff staff eu cam-drin, eu bygwth neu lle yr ymosodir arnynt mewn amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'u gwaith, yn ymwneud ag unrhyw her echblyg neu ymhlyg i'w diogelwch, eu lles neu eu hiechyd. Gall hyn gynnwys rhai mathau o ymddygiad a nodir o dan aflonyddu a bwlio, er enghraifft trais llafar'. Mae camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion y Tasglu Trais ac Ymddygiad Ymosodol wedi bod yn mynd rhagddynt ers 2007. Elfen allweddol o'r gwaith hwn yw annog staff i hysbysu am bob digwyddiad ac mae'r cynnydd yn 2009-10 yn un o ganlyniadau disgwyliedig y rhaglen waith hon.  Yn y cyd-destun hwn, mae'r data ar gyfer digwyddiadau treisgar yn erbyn staff GIG Cymru fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2005-6 | 6788 (1) |
| 2006-7 | 8466 |
| 2007-8 | 7343 (2) |
| 2008-9 | 6163 |
| 2009-10 | 8343 |

(1). Ac eithrio data o'r cyn Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych
(2). Ac eithrio Bwrdd Iechyd Lleol Powys; data rhannol ar gyfer cyn Ymddiriedolaethau'r GIG o fewn Byrddau Iechyd Hywel Dda a Betsi Cadwaladr

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau ar gyfer nifer y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru (fesul grŵp oedran) er 2007. (WAQ56085)

***Rhoddwyd ateb ar 22 Mehefin 2010***

Mae data ar farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol ar gael ar wefan ganlynol y Swyddfa Ystadegau Gwladol:

http://www.statistics.gov.uk/statbase/Product.asp?vlnk=14496

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau ar gyfer nifer y swyddi ffisiotherapi cymwys sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru, o'i gymharu â'r ffigurau ar gyfer 2007 a phob blwyddyn y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer wedi hynny. (WAQ56086)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Mae buddsoddi mewn ffisiotherapi yn fater i fyrddau iechyd lleol.  Mae eu buddsoddiad yn seiliedig ar anghenion lleol a chaiff ei nodi drwy eu cynlluniau gweithlu.  Ni chesglir nifer y swyddi ffisiotherapi yng Nghymru yn y ffordd hon fel mater o drefn.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu data'n ymwneud â nifer y bobl sy'n mynd i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys gyda chyflyrau sy'n gysylltiedig ag alcohol ar gyfer pob blwyddyn y mae data ar gael ar eu cyfer er 1999, wedi'u dadansoddi fesul ardal BILl lle bo hynny'n bosibl. (WAQ56087)

*Rhoddwyd ateb ar 22 Mehefin 2010*

Nid ydym yn cadw data cyn 2008 yn ymwneud â nifer y bobl a aeth i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys lle y gallai yfed alcohol fod wedi cyfrannu at yr achos.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran yr achosion a oedd yn gysylltiedig ag alcohol ar gyfer pob BILl yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

| | **2008/09** | | **2009/10** | |
|---|---|---|---|---|
| **BILI** | **Nifer** | **% age** | **Nifer** | **% age** |
| Abertawe Bro Morgannwg | 2,839 | 2.10% | 3,124 | 2.30% |
| Aneurin Bevan | 1,135 | 0.90% | 1,279 | 1.00% |
| Caerdydd a'r Fro | 1,395 | 1.20% | 2,405 | 1.90% |
| Cwm Taf | 1,919 | 1.90% | 1,249 | 1.20% |
| Betsi Cadwaladr | 2,265 | 1.50% | 2,437 | 1.50% |
| Hywel Dda | 1,437 | 1.50% | 1,270 | 1.30% |
| **Cymru gyfan** | **10,990** | **1.50%** | **11,764** | **1.60%** |

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ei hateb i WAQ54547, a wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ba ffigurau sydd ar gael yn awr ynghylch nifer y bobl sy'n mynd i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys sydd wedi dioddef trais domestig. (WAQ56088)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ei hateb i WAQ54547, pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod gan adrannau Damweiniau ac Achosion brys systemau gwybodaeth digonol i nodi pobl sy'n dychwelyd fwy nag unwaith oherwydd eu bod o bosibl wedi dioddef trais domestig, a sawl atgyfeiriad sydd wedi'i wneud er Gorffennaf 2009. (WAQ56089)

*Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010*

Fel y nodwyd yn flaenorol, ni chaiff unrhyw ddata ei gasglu fel mater o drefn ar hyn o bryd ond nodir cam gweithredu yn ein cynllun gweithredu newydd 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010, sef, "Datblygu system wybodaeth genedlaethol a'i rhoi ar waith mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys er mwyn nodi dioddefwyr a dioddefwyr sy'n dychwelyd dro ar ôl tro mewn perthynas â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod er mwyn sicrhau y gwneir atgyfeiriadau priodol". 2011 yw'r dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r cam gweithredu hwn.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ei hateb i WAQ54553, a wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn. (WAQ56090)

*Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010*

Rwyf wrthi'n aros am gyngor gan fy swyddogion ar y mater hwn.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ei hateb i WAQ53830, pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i geisio dwyn ymlaen y ddadl mewn Cyfarfod Llawn yr oedd yn bwriadu ei chynnal haf diwethaf. (WAQ56091)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Roedd fy ateb ar 26 Mawrth 2009 yn cyfeirio at ddadl. Teimlwyd yn ddiweddarach ei bod yn briodol i'r Prif Weinidog wneud datganiad i'r Cynulliad, fel yr addawyd yn ei ddatganiad ar 24 Mawrth 2009. Gwnaeth hyn ar 7 Gorffennaf 2009.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint mae Grŵp Adolygu Biwrocratiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi’i gostio hyd yn hyn ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad fesul a) yr holl ad-daliadau i’r aelodau b) y treuliau ysgrifenyddol ac c) y costau hyrwyddo. (WAQ56082)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Mehefin 2010***

Cost Grŵp Adolygu Biwrocratiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru hyd yma yw £2,626. Mae'r costau fel a ganlyn:

| | £ |
|---|---|
| Ad-daliadau i'r aelodau | 2,626 |
| Treuliau ysgrifenyddol | Dim |
| Costau hyrwyddo | Dim |

Nid oes unrhyw swyddogion yn gweithio'n llawn amser ar yr Adolygiad Biwrocratiaeth ac felly mae unrhyw dreuliau ysgrifenyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith wedi'u cynnwys yng Nghostau Rhedeg presennol yr Adran. Mae swyddogion yn defnyddio dulliau sy'n bodoli eisoes i hysbysu'r diwydiant am yr adolygiad, ac mae'r rhain yn cynnwys y cylchgrawn Gwlad, hysbysiadau’r wasg a'm datganiadau Cyfarfod Llawn fy hun. O ganlyniad, nid oes unrhyw gostau hyrwyddo.